Brick Fabrication KTP

Mae'r gwneuthurwr deunyddiau adeiladu o Bont-y-pŵl, Brick Fabrication, wedi dyblu nifer ei staff a'i drosiant, diolch yn rhannol i Bartneriaeth Trosglwyddo Gwybodaeth gyda Phrifysgol Caerdydd.

Ynhgylch y Noddwr

Rhaglen yw'r Partneriaethau Trosglwyddo Gwybodaeth sy'n gweithredu ledled y DU i wella cystadleuedd a chynhyrchedd drwy wneud gwell defnydd o'r wybodaeth, y dechnoleg a'r sgiliau sydd ym Mhartneriaethau Trosglwyddo Gwybodaeth y DU. Mae rhaglen y Bartneriaeth yn cael ei rheoli gan Innovate UK.

Mae'r rhaglen yn gweithio drwy benodi person newydd raddio o brifysgol, neu gydweithiwr, i weithio mewn busnes am gyfnod penodol. Bydd y Cydweithiwr yn trosglwyddo gwybodaeth newydd o'r brifysgol i helpu'r busnes i arloesi a thyfu.

Ynghylch y prosiect

Yn 2013, cynhaliodd y cwmni brosiect dwy flynedd yn cael ei ariannu'n llawn gan Lywodraeth Cymru gan sefydlu Partneriaeth Trosglwyddo Gwybodaeth gydag adran beirianneg Prifysgol Caerdydd. Roedd y prosiect yn cynnwys dylunio peiriant torri brics pwrpasol, cyflwyno egwyddorion gweithgynhyrchu darbodus i'r busnes a chysylltu dyluniad gan gyfrifiadur i'r peiriannau awtomatig yn y gweithle.

Yn ôl Mr Alan Davies, y Partner Sail Gwybodaeth: "Drwy'r Bartneriaeth Trosgwlyddo Gwyboaeth, llwyddodd y cwmni i gael dyluniadau a phrototeipiau ar gyfer peiriannau newydd i dorri brics ac offer cysylltiedig yn ogystal â meddalwedd pwrpasol i wella gweinyddiad y gwaith cynhyrchu. Gyda'r wybodaeth fanwl rydyn ni'n ei gael drwy'r feddalwedd rydyn ni'n gallu gwella gwaith peiriannu a chydosod y cwmni sydd wedi cyfrannu at weithredu dulliau gwella darbodus, cynaliadwy a pharhaus".

Y cwmni

Mae Brick Fabrication yn cynhyrchu deunydd adeiladu pre-fabricated ar gyfer y diwydiant adeiladu tai yn y DU ac mae wedi cyflenwi llawer o'r adeiladwyr tai mwyaf am bron i ddau ddegawd ers ei

sefydlu ym 1997. Cynyddodd Brick Fabrication ei drosiant fwy na dwbl gyda'r Bartneriaeth Trosglwyddo Gwybodaeth yn cyfrannu £1.25 tuag at hyn ac mae'r cynnydd yn y busnes yn arwain at don newydd o ddatblygu cynnyrch ac ymchwil marchnad yn y cwmni.

Meddai Mr John White, Cyfarwyddwr Brick Fabrication: "Mae Sajith wedi bod yn aelod ychwanegol ardderchog i'n tîm ac roedd ein Partneriaeth Trosglwyddo Busnes gyda Phrifysgol Caerdydd yn ffactor enfawr yn y llwyddiant a ddaeth i ran y busnes yn ystod y blynyddoedd diwethaf".

Y Cydweithiwr

Yn dilyn llwyddiant y prosiect, penododd Brick Fabrication eu cydweithiwr Partneriaeth Trosglwyddo Gwybodaeth, Mr Sajith Soman a chychwyn ar ymgyrch recriwtio a fydd yn arwain at 31 o swyddi ychwanegol yn eu gwaith ym Mhont-y-pŵl yn ystod y tair blynedd nesaf.

Bydd Mr Soman yn gyfrifol am arwain a gwella'r gwaith parhaus o ddylunio a datblygu cynnyrch ledled y busnes. Bydd yn gweithredu'r egwyddorion a thechnegau arloesol cynhyrchu darbodus ledled y broses gynhyrchu ac o wella effeithiolrwydd a pherfformiad y gwaith yn gyffredinol.

Meddai Mr Soman: "Rwyf wrth fy modd yn ymuno â Brick Fabrication ar gyfnod mor gyffrous yn nhwf y cwmni. Rwy'n gobeithio ychwanegu gwerth i'r busnes drwy sefydlu diwylliant o wella parhaus."

Y Partner Academig

Meddai Dr. Michael Packianather, yr academig arweiniol: "Roedd y prosiect Partneriaeth Trosglwyddo Gwybodaeth gyda Brick Fabrication yn gyfle gwych i ymchwilio a throsglwyddo gwybodaeth ynghylch dylunio peiriannau yng nghyd-destun awtomeiddio a gweithredu deallus ar y naill law ac ailddiffinio'r broses weithgynhyrchu gyda chymorth egwyddorion gweithgynhyrchu Technoleg Gyfun Hyblyg ar y llaw arall – roedd gofyn cael y ddau er mwyn gallu cynyddu'r cynhyrchu a'r cynhyrchiant yn Brick Fabrication".

Meddai Mr Paul Thomas o Brifysgol Caerdydd: "Mae Brick Fabrication yn bartner rhagorol ar gyfer cydweithio a gwnaeth y Cydweithiwr Partneriaeth Trosglwyddo Gwybodaeth waith gwych a arweiniodd at ganlyniad llwyddiannus".

Busnes | Business Cymru | Wales

I wybod rhagor am gyllid a chymorth gan Lywodraeth Cymru:

Ebost: businesssupport@wales.gsi.gov.uk

Gwefan: busnes.cymru.gov.uk

Ffôn: 03000 6 03000

arloesi

OGL

WG29488 / © Hawlfraint y Goron 2016